COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD LLUN, 18 MEDI 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | P Ford | D T Harrison |
| M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | A Wathan |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D M Hughes

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Shagufta Khan | Social Work Lead in Adult Social Care |
| Marny Mainwaring | Senior Mental Health Co-Ordinator |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grwp, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |

44. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Della Hughes

Roedd y Cynghorydd Paula Ford wedi ymddiheuro y byddai hi'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod ac ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Davies y byddai angen iddo ef adael y cyfarfod yn gynnar.

Swyddogion
Laura Kinsey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant a Glynis Evans, Rheolwr Gwasanaethau iechyd Meddwl Cymunedol.

Gwahoddedigion:
Ymddiheurodd y Cynghorydd Richard Granville a'r Cynghorydd Jane Gebbie y byddai'n rhaid iddynt adael y cyfarfod yn gynnar.

45. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

46. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 2, dyddiedig 16 Chwefror, 27 Mawrth a 10 Gorffennaf 2023, fel cofnod gwir a chywir.

47. GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL I OEDOLION

Cyflwynodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r cyd-destun strategol a gweithredol y mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i Oedolion yn cael eu darparu ynddo yn y Fwrdeistref Sirol a gofyn i'r Pwyllgor roi sylwadau ar gyfeiriad y gwasanaethau i'r dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y llwybr atgyfeirio i'r Tîm Gofal Cymdeithasol ac Adfer, y cyfnod ymyrraeth nodweddiadol a'i bwysigrwydd fel tîm ymyrryd yn gynnar ac atal.
- Y cynnydd nodedig yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc ar y sbectrwm awtistig, y Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru a chynllun hyfforddi'r Awdurdod.
- Digwyddiadau hacathon lleol ac addasiadau i wella gwasanaethau a chyfathrebu ar gyfer pawb sydd â chyflyrau niwroamrywiol.
- Cyd-arolygiad cadarnhaol ar y cyfan Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol y Gogledd a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella ac arfer gorau.
- Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynorthwyo Adferiad yn y Gymuned:
  - Y mathau o gyrsiau therapiwtig a chwnsela sydd ar gael;
  - esblygiad y gwasanaeth;
  - proffil oedran a rhesymau pobl dros ddefnyddio'r gwasanaeth; a
  - cgasglu profiadau ac adborth defnyddwyr y gwasanaeth.
- Y rhestrau aros presennol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a rôl ysgolion a cholegau mewn gwneud atgyfeiriadau.
- Llwyddiant yr Encil Les, y potensial i ehangu'r gwasanaeth, a'r themâu sy'n effeithio ar ddefnyddwyr.
- Digonolrwydd cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl statudol, buddsoddiad wedi'i dargedu mewn Gwasanaethau Atal a Lles i atal yr angen rhag cynyddu ymhellach i wasanaethau eilaidd, a phwysigrwydd llwythi achosion diogel a hydrin.
- Gwella cyfathrebu o amgylch Iechyd Meddwl a lleihau stigma.
- Datblygu Strategaeth Iechyd Meddwl Ranbarthol ac unrhyw newidiadau a ragwelir i'r Strategaeth Dros Dro yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol newydd.
- Y gynulleidfa darged ar gyfer y Strategaeth Dros Dro, pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a'r camau a gymerwyd i hybu'r gwasanaethau sydd ar gael.
- Ffynhonnell ac arwyddocâd y gwerthoedd a'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Interim a'r Codau Ymarfer Proffesiynol.
- Cyflwyno hyfforddiant a nodwyd a'i hygyrchedd, a sut mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhelliad canlynol:

1. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Aelodau'r Senedd dros Ben-y-bont ar Ogwr ac Ogwr i ofyn am wahoddiad i gyfarfodydd y ford gron a gynhelir ganddynt, sy'n cynnwys sefydliadau trydydd sector a gwirfoddol ac sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a *Llwybr Iechyd Meddwl Pen-y-bont ar Ogwr.*

*a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:*

2. Data'n ymwneud â'r cynnydd nodedig yn nifer y bobl ifanc ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n cael eu cyfeirio at y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a chopi o'r Cod Ymarfer presennol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru.

3. Bod gwybodaeth am y llwybr at eiriolaeth annibynnol i oedolion yn cael ei chylchredeg i bob Aelod er mwyn eu galluogi i gyfeirio etholwyr y mae arnynt angen eiriolaeth.

Gwasanaeth Cynorthwyo Adferiad yn y Gymuned (ARC)

4.
   a) Gwybodaeth am y mathau o gyrsiau sydd ar gael gan ARC;
   b) Gwybodaeth am y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi esblygu ac addasu yn y blynyddoedd diwethaf;
   c) Data yn dangos amrediad oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y rhesymau pam ac ymyriadau'r gwasanaeth gyda hwy; ac

Achosion enghreifftiol o waith sydd wedi cael ei wneud ar lefel unigolion a grwpiau yn y 12 mis diwethaf.

48. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor, i graffu arno cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor ar 20 Medi 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Diolch y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei harweinyddiaeth ac i'r staff i gyd am eu holl waith caled.
- Goblygiadau ariannol ac effaith ddisgwyliedig y ddarpariaeth breswyl newydd i blant.
- Digonolrwydd a chynllunio cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cyllid grant a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Adolygiad arbenigol o wariant yn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu a chost a gwerth gofalwyr maeth.
- Asesiadau gofalwyr a phwysigrwydd cynorthwyo gofalwyr di-dâl i ddod o hyd i wybodaeth am y cymorth sydd ar gael a chael mynediad ato.
- Rôl y Swyddog Cyfranogi, y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod llais plant a theuluoedd yn cael ei glywed a chamau pellach sydd i gael eu cymryd, gan gynnwys sefydlu Siarter Rhieni.
- Breuder staffio, y posibilrwydd o dâl, telerau ac amodau cenedlaethol safonol i Gymru, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng awdurdodau lleol ynghylch cyflog ac amodau gwaith gweithwyr asiantaeth, a mesurau i ddenu gweithwyr Gofal Cymdeithasol i Ben-y-bont ar Ogwr.
- Y ffactorau sy'n cyfrannu at y niferoedd uchel o Blant sydd wedi cael Profiad o Ofal a Phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac effaith ddisgwyliedig y Cynllun Cynaliadwyedd ar Ofal Cymdeithasol Plant.

- Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwaith aml-asiantaeth a Chyd-arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Drefniadau Amddiffyn Plant.
- Y data ynghylch Gwasanaethau Ailalluogi, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a chwynion a chanmoliaeth.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

5. Bod y modelu ariannol sydd ar gael i'r Cabinet yn ystod y broses o osod y gyllideb i fod ar gael hefyd i'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb i fod o gymorth gyda'u trafodaethau ar y gyllideb ynghylch digonolrwydd ariannol ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

6. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr, i gefnogi ymateb y Dirprwy Arweinydd a'r Cyngor i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth*, at Weinidog Cymru dros Wasanaethau Cymdeithasol ynghylch tâl, telerau ac amodau cenedlaethol safonol Cymru er mwyn atal "potsio" staff gan awdurdodau lleol eraill ac felly sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn cadw gweithlu medrus.

*a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:*

Diweddariad ar gynnydd a chost y flaenoriaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant i wella capasiti gofal maeth mewnol a gweithredu gwasanaeth cymorth therapiwtig i ofalwyr maeth.

49. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fod yn bresennol. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio'r meini prawf dethol ym mharagraff 3.5 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B. Gofynnodd hefyd i'r Pwyllgor nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor i gynrychiolwyr asiantaethau partner, oedd yn ymwneud â'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, gael eu gwahodd i fod yn bresennol ar gyfer craffu ar eitem *Arolygiaeth Gofal Cymru – Cydarolygiad o Drefniadau Amddiffyn Plant* a drefnwyd ar y Flaenraglen Waith ar gyfer 23 Tachwedd 2023.

Ni nodwyd eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 3.5, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd ceisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf COSC.

50. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:56